Canllawiau plant i ofal

maeth

stepping stones

cŵl i ofalu

Ein hanesion

Tripiau hwyl

Ateb eich cwestiynau

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Ein hanesion maethu

Charley

Dwi wedi bod yn maethu ers 2 neu 3 mis.

Dwi'n falch pan fydd yn chwerthin a phan dwi'n gwneud iddo fo chwerthin.

Dwi ddim yn hapus pan fydd yn crio a ddim yn stopio.

Dwi'n darllen storïau iddo fo ac yn gadael iddo gael fy nhedis.

Rydyn ni'n maethu ers cyn i ni gael ein geni, dros 10 mlynedd, trwy ein hoes, wir. Rydyn ni'n hoffi gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth ac yn eu helpu hefo'u dyfodol. Rydyn ni'n hoffi'r plant bach.

Rhianna, Bethan & Robert

Sophie

Dwi wedi bod yn maethu ers tua 4 blynedd. Dwi'n hoffi gofalu am blant ac mae'n braf dod i grŵp lle mae pawb yr un fath. Mae'n anodd gadael iddyn nhw fynd os ydych chi wedi'u cael ers amser hir. Os yw mam yn gwneud rhywbeth byddaf fi'n gofalu amdanyn nhw a chwarae hefo nhw.

EICH cwestiynau

Sut rai ydi plant maeth?

Fel rheol maen nhw'n hapus iawn ac mae'n wych pan fyddi di'n gwneud iddyn nhw wenu achos rwyt ti'n teimlo dy fod yn gwneud rhywbeth yn iawn.

Mae plentyn maeth sy'n faban yn debyg i unrhyw faban arall ond gall plentyn maeth sy'n hŷn fod yn fwy drygionus.

Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n neis ac fel rheol maen nhw'n falch dy fod yn eu helpu.

Pam maen nhw mewn gofal?

Weithiau, dim ond i roi seibiant i'w rhieni.

Achos nad yw eu rhieni wedi gofalu amdanyn nhw'n iawn.

Achos nad yw'r rhieni yn gallu ymdopi neu mae'r plant yn cael eu brifo.

Beth os nad ydw i'n eu hoffi?

Dywed wrth dy rieni nad wyt yn eu hoffi.

Unwaith y byddi di'n dod i'w nabod maen nhw'n neis. Peidiwch â barnu llyfr wrth y clawr, meddan nhw, hyd yn oed os nad wyt ti'n eu hoffi i ddechrau.

Oes rhaid i mi rannu fy mhethau?

Weithiau bydd angen i ti rannu dy deganau ond dydi pethau ddim mor ddrwg â hynny achos rydych chi'n gallu chwarae hefo eich gilydd. Mi ddeui i arfer peidio â chael y teledu i ti dy hun. Mae'n rhaid i ti rannu dy rieni, dy frodyr a dy chwiorydd a dy amser ond mae'n werth chweil.

Rho'r holl bethau nad wyt ti eisiau i'r plant chwarae hefo nhw yn dy ystafell.

Dwi'n rhannu fy mhethau fel rheol ond dim fy ngholur na'm ffôn. Dywed wrthyn nhw efo beth maen nhw'n cael chwarae a beth dydyn nhw ddim yn ei gael.

Fyddan nhw'n helpu yn y tŷ?

Mae rhai yn hoffi helpu i osod y bwrdd.

Mae rhai yn hoffi helpu o gwmpas y tŷ er mwyn peidio â phendroni am bethau ac i wneud ffrindiau hefo pawb.

Mae'n dibynnu a ydyn nhw'n ddigon hen.

Ydi hi'n anodd ffarwelio?

Ydi.

Ydi, ond mae'n haws os wyt ti'n gwybod eu bod yn mynd i le diogel sy'n braf.

Ein tripiau hwyl

Chester Zoo

Alton Towers

Cadburys World

Noson Galan Gaeaf yn Applejacks

Hwyl
Cyfle i ddysgu
Trist wrth ffarwelio
Dysgu plant eraill amdano
Mae pob plentyn yn gwerthfawrogi
Dy atgoffa pa mor lwcus wyt ti
Gobeithio am y dyfodol gorau iddyn nhw
Esgeulustod ydi'r rheswm pam maen nhw yma
Rydyn ni'n cael llawer o hwyl

gan Rhianna

Snow Dome



Manley Mere

Parti Nadolig